


John Owen

Gerddi Gleision (1888 – 1967)



Gŵr arall sy'n haeddu ei le yn yr arddangosfa John Owen, Gerddi Gleision, Llangernyw, a pha ryfedd hynny, oherwydd roedd yn hanner brawd i'r diweddar frodyr J.T. ac R. E. Jones. Ar ôl gadael yr ysgol, bu'n gweini ar y tir ac yn atgyweirio llwybrau, ffosydd a phontydd. Roedd hefyd yn asiant i gwmni gwerthu nwyddau i ffermwyr. Bu'n aelod o Gymdeithas Ddrama Llangernyw ac yn hanesydd lleol. Gŵr hunnan-ddiwylliedig oedd, a enillodd lawer iawn mewn eisteddfodau; a darlledwyd nifer o'i ganeuon ysgafn ar y rhaglen boblogaidd "Hogia'r Gogledd".

Another person who earns a place in the exhibition is John Owen, Gerddi Gleision, Llangernyw. He was the half brother of the eminent brothers J.T. and R.E. Jones. After leaving school, he worked on the land and repaired footpaths, ditches and bridges as well as being an agent for an agricultural supplies company. He was a local historian and member of the Llangernyw Drama Society. He was a self taught poet who won many prizes in eisteddfodau. Many of his light hearted songs were broadcast on the popular programme "Hogia'r Gogledd".

Y GANLLAW

Dan gysgod gwern ar bompren,
Mae'n uno dwylan a dol,
Lle rhoddwn gynt wrth chwarae
Ffrwyn I'n direidi ffôl.

Er pan fum yno'n laslanc
Bu llawer tro ar fyd.
Pan geisiwn wyllo'r pysgod
A llygaid Nel'run pryd.

Roedd dwy lythyren dorrwyd
Gan serch, ryw foment fawr,
Yn ddyfnach yn ei derw
Nac ydynt yno'n awr!

A heno, yn ein henoed,
Wrth bwyso arni hi,
'Roedd dau yn dal i garu
Yn narlun pert y lli.

UNIGEDD

Yno caf win ei riniau – I wella
Archollion gofidiau;
Ni does gledd na bedd i'r bau,
Na cherrant ar ei chyrrau.

Y Ddafad Ddu

Er ei lliw ni chaiff ei briwio – na'i herlid
O'r Gorlan lle trigo;
Nid ffaidd gan braidd ei bro
Oedd hon, mae'n gydradd yno.

HAU

Rwy'n cofio yr adeg, bum innau,
Pob gwyn ar waith yn dyn,
Yn uno a chwmni y llanciau
I feddi y gwenith gwyn,

A chludai pob Gwanwyn o'i wawrio,
Lu o bryderon bryd hyn,
Ond ffoesant bob tymor i ango'
Cyn medi y gweinith gwyn.

Bodloni raid heddiw ar wrando
Si y pladuriau yn syn,
Ac edrych ar eraill yn rhwyfo
Trwy donnau y gwenith gwyn.

I minnau, mae'n disgwyl digysur,
O wybod mai'r adeg y myn
Y daw'r hen ŵr amser a'i bladur
I feddi ei wenith gwyn.

Dyma yw ei gerdd fuddugol yn Eisteddfod Pwllheli. Gŵyl Dewi 1944. Y beirniaid oedd neb llai na'r anfarwol Waldo Williams. Cefndir y gerdd yw milwr, a fu'n garcharor yn yr Almaen, bellach wedi dychwelyd adref ac yn breuddwydio am yr hen wersyll.

Here is the prize winning entry for the St David's Day Eisteddfod in Pwllheli in 1944. The adjudicator was Waldo Williams. The background to the poem is a soldier imprisoned in Germany, now returned and dreaming about the old camp.

BREUDDWYD

Yr un hen wifrau pigog
Cordeddig yno'n fur
A'r gwn a llafn y fidog
I'w gofio am ei gur.
A dydd o doriad calon
Dyr eto dan ei lwyth
O ofid hiraeth creulon
Ar ddunos Stalag wyth.

A chlyw ei lais ei hunan
Yng nghwsg – fel sibrwd pell
Yn ateb pan êl allan
Ei fod yn ddeiliad cell.
Yn gaeth am na wnaeth drosedd
Ond caru ei ryddid gynt;
A'r euog yn y cyntedd
Yn gwyllo, gwyllo'i hynt.
Mae'r llythyr bach yn barod,
O dan obennydd llaith,
Heb arno flas y wermod
Pan ddel i be ei daith.
Daw'n bryd i'r gwersyll godi,
Ond ef, – ni ddaw i gam,
Cans heddiw daw'r 'rifali'
I'w alw yn iaith – "Ei Fam".

